# Yr Helfa Coed Hynafol

# GWYDDONIAETH:
## CYFLWYNIAD CYFFREDINOL
## GWYDDONIAETH A HELFA COED HYNAFOL COED CADW

## NODIADAU ATHRAWON

**Mae Coed Cadw yn cynnal prosiect cenedlaethol i ddarganfod a chofnodi ein coed hynafol.**

Archwiliwch gynnwys gwefan Helfa Coed Hynafol Coed Cadw **www.ancient-tree-hunt.org.uk/project**. Astudiwch amcanion y safle hwn – pwysigrwydd annog pobl o bob oed i ddod yn ymwybodol o'r angen i gadw a gwerthfawrogi ein coed hynafol, mewn coetiroedd, parciau, yng nghefn gwlad ac yn y trefi. Trafodwch gyda disgyblion eu hagweddau a'u teimladau ynghylch gwerth ein coed a chefn gwlad, cyn i chi ddechrau, ac ar ôl i chi wneud peth gwaith ymchwilio.

Helpwch Coed Cadw i ganfod a mapio'r holl goed hen a thewion ar draws Prydain. Defnyddiwch y syniadau hyn ar gyfer gweithgareddau fel rhan o gwricwlwm Gwyddoniaeth Cyfnod Allweddol 3 i ymchwilio, dysgu am, a chymryd rhan yn y gwaith o ddod o hyd i'r coed arbennig hyn.

Bwriad gwefan yr Helfa Coed Hynafol a'r gweithgareddau hyn yw annog pobl ifanc i gymryd diddordeb byw wrth ddysgu am goed hynafol. Gallant ddefnyddio arsylwadau, mesuriadau, arbrofion ac ymchwil i ganfod cymaint â phosibl am sut maent yn tyfu, eu disgwyliad oes, y broses heneiddio a'u gwerth i fioamrywiaeth ac yn y dirwedd. Dylent brosesu, dadansoddi a rhannu'r wybodaeth a gesglir i greu mwy o ymwybyddiaeth o'r modd y mae coed yn tyfu, coed lleol yn gyffredinol, a choed hynafol yn arbennig. O wneud hyn, gallwch gyflawni gofynion cwricwlaidd a chreu cyhoeddusrwydd i'r Helfa Coed Hynafol. Gallwch gyfrannu hyd yn oed os nad oes coed hynafol yn eich ardal!

Defnyddiwch y cyfle i gyd-weithio'n effeithiol ag adrannau eraill. Edrychwch ar yr adnoddau dysgu ac addysgu eraill yn y gyfres hon - yn enwedig Celf & Dylunio a Daearyddiaeth. Meddyliwch am amserlenni a datblygu ymchwiliad cyfannol, real o goed hynafol yn eich ardal leol, a chydag ymchwil, dynnu ynghyd y cysylltiad rhwng gwahanol feysydd cwricwlwm e.e. Celf a dylunio, Gwyddoniaeth, ABCh, ADCDF ac iaith.

## Amcanion Dysgu

Defnyddiwch y cyfle hwn ar gyfer dysgu yn yr awyr agored ac astudio coed go iawn fel sail i ddarganfod pethau am wyddoniaeth – dod â gwyddoniaeth yn fyw gyda phrofiad uniongyrchol.

Ymchwiliwch a dysgwch sut caiff prosesau bywyd ein coed, sef yr organebau mwyaf ar blaned Daear, eu cefnogi. Astudiwch sut mae coed yn tyfu, addasu a newid dros amser. Dysgwch sut mae prosesau heneiddio ac ymddygiad coed yn cysylltu â'u strategaethau goroesi.

Archwiliwch yr amrywiaethau mewn coed, eu rhyngweithiad â'i gilydd a'r amgylchedd, a pha ffactorau dynol, biotig ac anfiotig sy'n effeithio ar eu tyfiant a'u heneiddiad.

Archwiliwch yr amrywiaeth eang o organebau byw sy'n gysylltiedig â choed hynafol, gan fyw yn gyd-ddibynnol mewn cynefinoedd a chymunedau sy'n newid yn barhaus dros amser.

Gweithiwch yn unigol ac mewn grwpiau bach i drefnu, cynllunio a chynnal ymchwiliadau gwyddonol, gan ystyried yr holl ffactorau sy'n effeithio ar ein mesuriadau; adeiladwch ar wybodaeth a ddysgwyd eisoes, ac archwiliwch safbwyntiau eraill, gan ddefnyddio'r wybodaeth a gasglwyd i ddatblygu dadleuon a chasgliadau.

3720/06/08

Cynlluniwyd y taflenni hyn i gael eu rhannu. Gellir felly eu llungopïo a'u rhannu. Coed Cadw yw prif elusen cadwraeth y Deyrnas Gyfunol sy'n gweithio i warchod treftadaeth ein coetir brodorol.
**www.woodlandtrust.org.uk www.AncientTreeHunt.org.uk**

COED CADW WOODLAND TRUST

Yr Helfa Coed Hynafol

# GWYDDONIAETH:
## CYFLWYNIAD CYFFREDINOL
## GWYDDONIAETH A HELFA COED HYNAFOL COED CADW

NODIADAU ATHRAWON (parhad)

## Cyfleoedd cwricwlaidd:

Wrth ymgymryd â'r gweithgareddau hyn, dylai disgyblion ddatblygu fel dysgwyr gwyddoniaeth llwyddiannus; ennill hyder trwy eu cyflawniadau, a chynyddu gwybodaeth am wahanol goed, a sut maent yn tyfu ac yn heneiddio. Bydd eu dealltwriaeth o rôl coed hynafol yn ein tirwedd a'u gwerth i fioamrywiaeth yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cyfrifol a chyfrannu'n bositif fel dinasyddion mentrus a chyfrifol.

Mae'r unedau yn darparu cyfleoedd i ddisgyblion:

- Ymchwilio, arbrofi, trafod a datblygu dadleuon
- Cynnal ymholiad annibynnol ar agwedd o wyddoniaeth sydd o ddiddordeb personol
- Defnyddio enghreifftiau real fel sail i ddarganfod am wyddoniaeth
- Astudio gwyddoniaeth mewn cyd-destunau lleol a chenedlaethol a gwerthfawrogi'r cysylltiadau rhyngddynt
- Archwilio datblygiadau gwyddonol cyfoes a hanesyddol a sut maent wedi'u cyfleu
- Paratoi i arbenigo mewn ystod o bynciau gwyddonol ar lefel uwch ac ystyried cyfleoedd gyrfaol
- Gwneud cysylltiadau rhwng gwyddoniaeth a phynciau a meysydd eraill o'r cwricwlwm.

Mae yna 5 uned:

**Uned 1** Cwrdd â Choed Hynafol – Beth sy'n gwneud coeden yn hynafol?

**Uned 2** Coed Hynafol a Strategaethau Goroesi

**Uned 3** Coed Hynafol – Denu Bywyd Gwyllt

**Uned 4** Coed Hynafol a Phobl

**Uned 5** Coed Hynafol – Gwreiddiau er goroesi

3720/06/08

Cynlluniwyd y taflenni hyn i gael eu rhannu. Gellir felly eu llungopïo a'u rhannu. Coed Cadw yw prif elusen cadwraeth y Deyrnas Gyfunol sy'n gweithio i warchod treftadaeth ein coetir brodorol.
**www.woodlandtrust.org.uk www.AncientTreeHunt.org.uk**

COED CADW WOODLAND TRUST